# Llywodraeth Cymru Adroddiad ar Bolisi Trethi 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hydref 2025

Dyma'r pumed adroddiad blynyddol ar Gynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru 2021-26, yn cyflawni ein hymrwymiad i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed ar ein blaenoriaethau polisi trethi.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53163, ISBN digidol 978-1-80633-558-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


Rhagair ..... 2

Y cefndir ..... 3

Cyfraddau treth Cymru ..... 4

Y cefndir ..... 4

Cyfraddau Treth Incwm Cymru ..... 4

Ffigur un: Cyfraddau Treth Incwm Arfaethedig yng Nghymru, 2026-27 ..... 5

Y Dreth Trafodiadau Tir ..... 5

Tabl un: Prif gyfraddau preswyl TTT (o 10 Hydref 2022) ..... 5

Tabl dau: Cyfraddau preswyl uwch TTT (o 11 Rhagfyr 2024 ymlaen) ..... 6

Tabl tri: Prif gyfraddau amhreswyl TTT (o 22 Rhagfyr 2020) ..... 6

Tabl pedwar: Cyfraddau rhent lesoedd amhreswyl TTT (o 22 Rhagfyr 2020) ..... 6

Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ..... 7

Datblygu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ..... 7

Diwygio cyllid llywodraeth leol ..... 10

Datblygu ardoll ymwelwyr ..... 14

Datblygu'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog ..... 17

Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol ..... 18

Datblygu polisi treth trafodiadau tir ..... 19

Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi ..... 21

Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig ..... 24

Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ..... 27

Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol ..... 29

Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach ..... 30

# Rhagair



Dyma'r pumed adroddiad blynyddol ar Gynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru 2021-26, sy'n cyflawni ein hymrwymiad i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar hynt y gwaith o weithredu ar ein blaenoriaethau o ran polisi trethi.

Dyma'r adroddiad olaf i'r chweched Senedd; felly, yn ogystal â sôn am y cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cyflawni ein polisi trethi, mae'n bwrw golwg ar y datblygiad mawr yn y maes polisi yn ystod y Senedd hon. Y nod yw rhoi gwybod i bartneriaid, unigolion a busnesau am gyfleoedd i fod yn rhan o'r agenda trethi ac i gydweithio ar fentrau polisi trethi i Gymru.

Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi parhau i ymgorffori ac atgyfnerthu ein cyfrifoldebau am drethi yng Nghymru. Mae trethi datganoledig, ynghyd ag ardrethi annomestig, bellach yn cyfrif am fwy nag 20 y cant o gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Mae Awdurdod Cyllid Cymru bellach wedi casglu mwy na £2 biliwn o'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn ers iddo gael ei greu. Rydym yn parhau i ddatblygu ein polisi trethi sydd â buddiannau Cymru wrth ei wraidd.

Ymysg uchafbwyntiau'r adroddiad eleni mae hynt Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) 2025, a ddaeth yn gyfraith ym mis Medi 2025, ar ôl blynyddoedd o gynllunio gofalus, ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cyflawni un o ymrwymiadau allweddol y rhaglen lywodraethu, gan sicrhau dull mwy cynaliadwy o ymdrin â thwristiaeth ledled Cymru. O ran trethi lleol, rydym wedi symud i gam cyflawni Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, sy'n rhoi'r fframwaith i ddatblygu systemau tecach ac ymatebol sydd wedi'u teilwra at anghenion Cymru.

Law yn llaw â'r ymrwymiadau allweddol hyn, rydym wedi parhau â'r gwaith drwy gydol tymor y Senedd hon i ymgorffori a datblygu ein trethi datganoledig presennol a meysydd polisi cysylltiedig, gan sicrhau eu bod yn helpu i gyflawni amcanion strategol ac yn cyd-fynd â'n hegwyddorion treth craidd.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu camau a gymerwyd eleni, megis gweithgareddau ymgysylltu, ymgyngoriadau cyhoeddus a diweddariadau i drethi datganoledig. Byddem yn falch o gael eich adborth ar unrhyw bynciau drwy gysylltu â Thrysorlys Cymru drwy un o'r ffyrdd a restrir ar y diwedd.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

# Y cefndir

1. Mae tair treth wedi cael eu datganoli i Gymru – y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a Chyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC).

2. Mae'r tair treth hyn yn cynhyrchu refeniw yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn dod o Lywodraeth y DU mewn grant bloc.

3. Ceir tair treth leol: y dreth gyngor, ardrethi annomestig a'r ardoll ymwelwyr a sefydlwyd yn ddiweddar sy'n cynhyrchu refeniw i brif gynghorau yng Nghymru.

4. Mae'n hanfodol bod pob treth yng Nghymru yn cael ei gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, er mwyn cynhyrchu'r refeniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig Cymru megis iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, addysg a seilwaith trafnidiaeth.

5. Mae'r Diweddariad ar ein Fframwaith Polisi Threthi[1], a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, yn nodi ein hegwyddorion treth craidd a'r dull o ymdrin â threth yng Nghymru. Mae ein hegwyddorion treth yn cadarnhau y dylai trethi Cymru:

    - Codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus sydd mor deg â phosibl.
    - Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
    - Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml.
    - Cael eu datblygu drwy gydweithredu ac ymwneud.
    - Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

6. Mae'r Fframwaith Polisi Trethi yn nodi sut y byddwn yn parhau i ystyried cynaliadwyedd, tegwch a chydraddoldeb wrth fynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

7. Cyhoeddwyd Cynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru 2021-2026[2] ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Cynllun Gwaith yn ddull pwysig o godi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb a'u galluogi i ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r agenda dreth yng Nghymru.

8. Mae'r Adroddiad Polisi Trethi hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran yr agenda polisi trethi yng Nghymru. Hwn yw'r pumed adroddiad a'r adroddiad olaf ers cyhoeddi Cynllun Gwaith Polisi Trethi 2021-2026. Mae'r Adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar y gweithgarwch a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn fwyaf diweddar, ond mae hefyd yn myfyrio'n fwy cyffredinol ar y gweithgarwch a

[1] Diweddariad ar y fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU
[2] Cynllun gwaith polisi trethi 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

gynhaliwyd dros y pum mlynedd a gwmpesir gan y Cynllun Gwaith yn ogystal ag amlinellu rhywfaint o'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

# Cyfraddau treth Cymru

## Y cefndir

9. Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar 1 Ebrill 2018, a chânt eu casglu a'u gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) ar 6 Ebrill 2019 a chânt eu casglu a’u rheoli gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF).

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

10. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru'n gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru[3], mae pob agwedd arall ar y dreth yn dal yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU ac mae CThEF yn parhau i weinyddu’r dreth incwm yng Nghymru.


11. Fel rhan o'r broses, mae Llywodraeth y DU yn gostwng pob un o dair cyfradd treth incwm y DU ar gyfer trethdalwyr Cymreig 10c, ac yn gwneud gostyngiad cyfatebol i grant bloc Cymru, sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus a ddatganolwyd i Gymru. Drwy bleidlais yn y Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid gosod CTIC ar 10c, a thrwy hynny sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru a Lloegr yn talu'r un gyfradd, neu a ddylid gosod cyfraddau gwahanol.

12. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod CTIC ar gyfer 2026-27 ar 10c, gan barhau â'r lefelau presennol. Rhaid i'r cynnig hwn gael ei gadarnhau gan y Senedd drwy benderfyniad cyn cytuno ar Gyllideb derfynol 2026-27.

13. Mae ffigur un yn dangos y cyfraddau a'r trothwyon arfaethedig yn seiliedig ar drothwyon Treth Incwm a lwfansau personol 2026-27.

[3] Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru; fodd bynnag, ceir diffiniad llawn o dan a.8 o Ddeddf Cymru 2014: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

## Ffigur un: Cyfraddau Treth Incwm Arfaethedig yng Nghymru, 2026-27




## Y Dreth Trafodiadau Tir

14. Caiff cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir (TTT) eu hadolygu'n barhaus. Cafodd y cyfraddau sy'n daladwy ar drafodiadau cyfraddau preswyl uwch eu cynyddu 1 pwynt canrannol ar gyfer pob band yn weithredol o 11 Rhagfyr 2024. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r cyfraddau na'r trothwyon yn ystod y flwyddyn hon. Gwnaed newidiadau blaenorol i'r prif gyfraddau preswyl ym mis Hydref 2022 a, chyn hynny, ym mis Rhagfyr 2020.

### Tabl un: Prif gyfraddau preswyl TTT (o 10 Hydref 2022)

| **Trothwy prisiau** | **Cyfradd TTT** |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £400,000 | 6% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 10% |

| | |
|---|---|
| £1.5m ac yn uwch | 12% |

### Tabl dau: Cyfraddau preswyl uwch TTT (o 11 Rhagfyr 2024 ymlaen)

| **Trothwy prisiau** | **Cyfradd TTT** |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 5% |
| Mwy na £180,000 i £250,000 | 8.5% |
| Mwy na £250,000 i £400,000 | 10% |
| Mwy na £400,000 i £750,000 | 12.5% |
| Mwy na £750,000 i £1,500,000 | 15% |
| £1.5m ac yn uwch | 17% |

### Tabl tri: Prif gyfraddau amhreswyl TTT (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | **Cyfradd TTT** |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £250,000 | 1% |
| Mwy na £250,000 i £1,000,000 | 5% |
| £1m ac yn uwch | 6% |

### Tabl pedwar: Cyfraddau rhent lesoedd amhreswyl TTT (o 22 Rhagfyr 2020)

| Trothwy prisiau | **Cyfradd TTT** |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Mwy na £225,000 i £2,000,000 | 1% |
| Mwy na £2m | 2% |

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

15. Cyhoeddir cyfraddau arfaethedig y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn dilyn y datganiad Cyllideb gan Lywodraeth y DU. Bwriedir i gyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gael ei chynyddu yn unol â'r chwyddiant a ragwelir (a fesurir drwy'r mynegai prisiau manwerthu (RPI)).

16. Caiff y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig eu cynyddu i gadw eu lefelau ar 5% a 150% o'r gyfradd safonol yn y drefn honno.

## Datblygu Cyfraddau Treth Incwm Cymru

**Diben**

17. Er mwyn sicrhau bod CTIC yn parhau i gael eu gweinyddu'n effeithlon ac asesu sut y gallai newidiadau posibl effeithio ar drethdalwyr Cymreig.

**Y cefndir**

18. Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019. Gostyngwyd cyfraddau'r DU ar incwm nad yw'n dod o gynilion na difidendau 10c ym mhob band ar gyfer trethdalwyr Cymreig a phennwyd cyfraddau Cymru ar 10c. Mae cynnal cyfraddau Cymru ar y lefel hon ym mhob band yn golygu y bydd trethdalwyr Cymreig yn talu'r un cyfraddau treth incwm cyffredinol â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

19. Mae gan Lywodraeth Cymru Gytundeb Lefel Gwasanaeth â CThEF ar gyfer casglu CTIC ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Bwrdd CTIC, a gadeirir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CThEF, yn goruchwylio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEF. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi gofynion a mesurau perfformiad ar gyfer rhoi CTIC ar waith. Caiff ei adolygu'n flynyddol.

20. Fel y'i nodwyd yn y Cytundeb, mae'n ofynnol i CThEF gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y ffordd y mae'n gweinyddu CTIC. Mae'r adroddiad diweddaraf[4], a gyhoeddwyd ar 11 Medi, yn rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae CThEF yn gweinyddu CTIC, gan gynnwys:

- Gweithgarwch cydymffurfiaeth (gan gynnwys sicrwydd cyfeiriadau).
- Casglu refeniw a rhoi cyfrif amdano.
- Gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid.
- Data ar gyfer pennu cyfraddau a rhagolygon.

[4] Adroddiad Blynyddol 2025 ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru - GOV.UK

- Data ar gyfer gwaith rheoli arian Llywodraeth Cymru.
- Costau rhoi CTIC ar waith, ac ailgodi tâl am gostau CThEF.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

21. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn archwilio gwaith CThEF yn annibynnol er mwyn sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian. Nododd yr adroddiad diweddaraf[5], a gyhoeddwyd ar 24 Ionawr 2025, fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn fodlon ar y ffordd y mae CThEF yn gweinyddu CTIC a bod y costau a delir gan Lywodraeth Cymru yn gywir ac yn deg.

22. Mae gweithgor dadansoddol ar dreth incwm ddatganoledig yn goruchwylio'r gwaith o ddadansoddi ystadegau ar dreth incwm ddatganoledig, gan gynnwys y cyhoeddiadau alldro. Ymhlith aelodau'r grŵp hwn mae swyddogion o CThEF, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Comisiwn Cyllidol yr Alban a Llywodraeth yr Alban.

23. Mae ystadegau alldro treth incwm yn nodi refeniw CTIC a'r refeniw cyfatebol ar gyfer gweddill y DU. Defnyddir y ffigurau hyn i gyfrifo'r addasiad i grant bloc Llywodraeth Cymru – sef y lleihad yn y cyllid gan Lywodraeth y DU i ystyried y refeniw y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cael yn uniongyrchol o'r trethi datganoledig.

24. Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd CThEF ei ail gyfres o ystadegau alldro yn ymwneud â CTIC[6]. Dangosodd yr ystadegau alldro mai'r refeniw o CTIC yn 2023-24 oedd £2,968 miliwn, sef cynnydd o 13.4% o gymharu â 2022-23. Mae'r ffigur hwn yn fwy na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc, sy'n arwain at sefyllfa gadarnhaol net o £187m. Ar adeg cyllideb 2023-24, roedd disgwyl i'r refeniw fod £63m yn fwy na'r addasiad i'r grant bloc ac, felly, mae £124m yn ddyledus i Lywodraeth Cymru. Cafodd manylion y swm cysoni hwn o 2023-24 eu nodi mewn datganiad ar y cyd â Thrysorlys EF a gyhoeddwyd ar 21 Awst 2025[7]. Caiff y cysoniad ei ychwanegu at Gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2026-27.

25. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio rhagolygon o'r refeniw o drethi datganoledig, gan gynnwys CTIC, i Lywodraeth Cymru. Caiff ei Rhagolwg Trethi Cymreig diweddaraf ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ond nid yw Rhagolwg CTIC wedi newid ers mis Mawrth. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn dibynnu ar benderfynyddion ehangach y DU a gyhoeddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr hydref (ochr yn ochr â

[5] Gweinyddu treth incwm Cymru 2023-24 – adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
[6] Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru: 2023 - 2024 - GOV.UK
[7] Cysoniad Alldro Treth Incwm Cymru ar gyfer 2023-24 – GOV.UK

Chyllideb y DU). Caiff rhagolwg CTIC ei ddiwygio yn y Diweddariad ar Ragolwg Trethi Cymru ar adeg y Gyllideb Derfynol.

26. Yn seiliedig ar ragolwg mis Mawrth, disgwylir i refeniw CTIC gyfateb i £3,754m yn 2026-27. Mae'r ffigur hwn £313m yn uwch na'r addasiad cyfatebol i'r grant bloc. Ynghyd â'r symiau cysoni o'r refeniw alldro ar gyfer 2023-24 a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, bydd CTIC yn gwneud cyfraniad cadarnhaol net gwerth £437m i gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2026-27.

27. Ynghyd â'r ffigurau cyfatebol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir, sef £29m, a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sef £20m, rhagwelir y bydd y trethi datganoledig, gyda'i gilydd, yn gwneud cyfraniad cyllidebol net cadarnhaol o £486m yn 2026-27.

28. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu CTIC ar gyfer 2026-27 ar 10c fesul band. Bwriedir i hyn gael ei gyflwyno gerbron y Senedd drwy gynnig cyn ystyried Cyllideb Derfynol 2026-27.

29. Mae'r Canllaw Cyflym presennol[8] ar gyfer CTIC yn rhoi amcangyfrifon o'r effaith y gallai newidiadau i bob un o dair Cyfradd Treth Incwm Cymru ei chael ar refeniw yn 2026-27. Ar y cyd â'r Gyllideb Derfynol, byddwn yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r Canllaw Cyflym a fydd yn cynnwys rhagolwg CTIC yr hydref ar gyfer 2026-27 ac yn darparu rhagolwg newydd ar gyfer 2027-28.

30. Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r Canllaw Cyflym yn ystyried gwaith dadansoddol CThEF yn seiliedig ar y set ddata hydredol.

**Adolygiad Annibynnol o Bwerau Treth Incwm**

31. Ar 4 Mawrth cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y byddai'n comisiynu ymchwil annibynnol i opsiynau ar gyfer datganoli treth incwm ymhellach yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad annibynnol yn ystyried perfformiad CTIC ers iddynt gael eu sefydlu yn 2019-20 yn ogystal â gwahanol fodelau posibl ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru yn y dyfodol, gan ystyried y polisi a'r cyfleoedd a'r risgiau cyllidol y byddai'r modelau hyn yn eu cyflwyno.

32. Ar 25 Medi, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod Sefydliad Fraser of Allander a Phrifysgol Bangor wedi'u penodi ac wedi dechrau ar y gwaith ymchwil hwn.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

33. Bydd CTIC yn parhau i gael eu rheoli drwy Fwrdd CTIC, gan gyfeirio at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEF.

[8] https://www.llyw.cymru/canllaw-cyflym-cyfraddau-treth-incwm-cymru-2025-i-2026

34. Caiff y broses hon ei llywio gan yr ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu, yn ogystal â rhagolygon trethi a'r rhagolygon economaidd a chyllidol ehangach.

35. Caiff yr adroddiad ar yr ymchwil annibynnol i opsiynau ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru yn y dyfodol ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf. Mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd ystyried y camau nesaf.

# Diwygio cyllid llywodraeth leol

### Diben

36. Gwella systemau cyllid a threthiant llywodraeth leol er mwyn sicrhau eu bod yn decach ac yn fwy cynyddraddol, cynaliadwy a chywir ac, ar yr un pryd, yn parhau i gefnogi gwasanaethau lleol hanfodol. Bydd newidiadau o'r fath hefyd yn helpu i gyflawni uchelgeisiau ehangach ar gyfer Cymru gryfach, decach a mwy gwyrdd.

### Y cefndir

37. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ymrwymo i sicrhau treth gyngor decach a mwy cynyddraddol. Mae ein rhaglen hefyd yn cynnwys ymrwymiadau eraill sy'n berthnasol i gyllid llywodraeth leol ac ardrethi annomestig, gan gynnwys dadlau dros ddatganoli trethi'n glir ac yn sefydlog i Gymru, sy'n cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar lywodraeth leol.

38. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod trethi lleol yn decach yn ystod tymor y Senedd hon[9]. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024[10] yn darparu ar gyfer amrywiaeth o ddiwygiadau ac adnoddau newydd i greu system trethi lleol y gellir ei theilwra mewn ffordd fwy ymatebol er mwn adlewyrchu anghenion Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnig fframwaith mwy hyblyg ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i addasu systemau mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid ac yn lleihau ein dibyniaeth ar ddarpariaethau yn neddfwriaeth Llywodraeth y DU i newid systemau trethi lleol yng Nghymru mewn modd amserol.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

39. Mae'r camau rydym wedi'u cymryd yn ystod tymor y llywodraeth hon yn canolbwyntio ar gyflawni ein nod i greu systemau tecach sydd wedi'u teilwra at anghenion Cymru, a ategir gan sail dystiolaeth fanwl a gyhoeddwyd yn 2021[11]. O'r sail honno, rydym wedi cyhoeddi ymgyngoriadau, gwerthusiadau ac adroddiadau pwnc-benodol, er mwyn cymryd camau tuag at y nod hirdymor.

[9] Y Cyfarfod Llawn 10/06/2025 – Senedd Cymru
[10] Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024
[11] Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru: crynodeb o'r canfyddiadau | LLYW. CYMRU

Rydym yn cynnal gwefan storio[12] lle rydym yn cyhoeddi ymchwil sy'n ymwneud â'r trethi lleol.

40. Eleni, rydym wedi parhau i ychwanegu gwaith dadansoddi manwl at ein tystiolaeth, gan gynnwys:

- Dadansoddiad polisi ac effaith o gronfeydd data arferol ar werthusiadau eiddo ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig.
- Adroddiad blynyddol[13] ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- Bwletin ystadegol blynyddol[14] ar ardrethi annomestig yng Nghymru. Mae'r bwletin yn cynnwys data ar swm yr ardrethi annomestig a gasglwyd a'r rhyddhadau a ddarparwyd, hyd at a chan gynnwys blwyddyn ariannol 2023-24.
- Cwblhaodd Alma Economics adolygiad o ryddhadau ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru[15]. Prif nod yr ymchwil oedd datblygu set o egwyddorion allweddol er mwyn llywio newidiadau i dirwedd rhyddhadau ardrethi annomestig yn y dyfodol, a fyddai'n seiliedig ar brofiadau ymarferol awdurdodau bilio a chanfyddiadau talwyr ardrethi.
- Caiff canfyddiadau[16] cam 2025 Arolwg Omnibws Cymru o agweddau pobl at y dreth gyngor eu cyhoeddi maes o law.
- Datblygu'n barhaus y data a ddelir gennym ar ardrethi annomestig a'r dreth gyngor er mwyn llywio dewisiadau polisi.

41. Rydym yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid mewn llywodraeth leol, yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac yn Nhribiwnlys Prisio Cymru, ynghyd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol eraill gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru a chymunedau busnes, er mwyn trafod ein cynlluniau.

### Y canlyniadau a'r camau nesaf

### Treth gyngor decach

42. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi 2024, mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024[17] wedi nodi'r fframwaith ar gyfer diwygio'r dreth gyngor yng Nghymru yn y dyfodol wrth inni weithio tuag at sicrhau system decach a mwy cynyddraddol. Mae'r Ddeddf yn sefydlu cylchoedd ailbrisio pum

---

[12] Tystiolaeth ac ymchwil ar y dreth gyngor ac ardrethi annomestig | LLYW. CYMRU
[13] Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: adroddiadau blynyddol
[14] Ardrethi annomestig (gwir): Ebrill 2023 - Mawrth 2024 | HTML LLYW.CYMRU
[15] Adolygiad o ryddhadau ardrethi annomestig |LLYW.CYMRU
[16] Agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor | LLYW.CYMRU
[17] Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024

mlynedd yn dechrau o fis Ebrill 2028, gan sicrhau y caiff y dreth gyngor ei diweddaru'n fwy rheolaidd nag sydd wedi digwydd yn y gorffennol, gan sicrhau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy cynyddraddol. Mae hyn yn dilyn ymgyngoriadau[18] ac amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu dros dymor y llywodraeth, er mwyn taro'r cydbwysedd cywir rhwng maint a chyflymder y newid i aelwydydd a llywodraeth leol.

43. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer cyflwyno system treth gyngor wedi'i diweddaru a llai gostyngraddol yn 2028. Mae hyn yn cynnwys gwaith prisio eiddo manwl gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a, maes o law, byddwn yn gweithio drwy ofynion gweithredol partneriaid cyflawni mewn llywodraeth leol a Thribiwnlys Prisio Cymru. Mae ein dealltwriaeth o fanteision ac effeithiau dewisiadau dylunio yn parhau i gael ei chefnogi gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, gan gynnwys mesur effeithiau dosbarthiadol gwahanol amgylchiadau ar aelwydydd. Mater i'r llywodraeth nesaf yng Nghymru fydd penderfynu ar gynllun manwl y system.

44. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cymryd nifer o gamau eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i wneud y dreth gyngor yn decach. Wedi'n galluogi gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, rydym wedi cwblhau[19] adolygiad o'r 53 o ddisgowntiau ac eithriadau'r dreth gyngor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben o safbwynt gweithredol a safbwynt polisi. Rydym yn bwriadu rheoleiddio er mwyn sicrhau gwelliannau erbyn mis Ebrill 2026. Mae'r rhaglen i wella'r broses apelio i drethdalwyr[20] ar y trywydd cywir i gael ei chyflawni erbyn diwedd tymor y Senedd hon.

45. Mae ein gwaith ar y dreth gyngor yn canolbwyntio ar wneud popeth o fewn ein gallu i helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu'r dreth neu sydd ag ôl-ddyledion. Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau y caiff pobl eu trin yn deg a gydag urddas drwy'r broses casglu a gorfodi ac, ar yr un pryd, gynnal sefydlogrwydd y dreth drwy gwtogi i'r eithaf ar nifer yr achosion o osgoi talu'r dreth gyngor gan y rhai a all ei thalu. Daeth ymgynghoriad[21] ar arferion casglu tecach i ben ar 23 Gorffennaf 2025 ac rydym yn bwrw ymlaen â gwelliannau deddfwriaethol i'w cyflwyno ym mis Ebrill 2026. Mae'r rhain yn cynnwys newid ffocws gweithgareddau casglu er mwyn canolbwyntio ar atal cefnogol yn hytrach na dwysáu niweidiol.

46. Bob blwyddyn ers 2013, ac unwaith eto yn 2025, rydym wedi penderfynu cefnogi aelwydydd incwm isel drwy fuddsoddi £244m yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n seiliedig ar reolau, sef cynllun cenedlaethol sy'n gyson ledled

---

[18] Darganfyddwch sut rydym yn diwygio'r Dreth Gyngor | LLYW. CYMRU

[19] Datganiad Ysgrifenedig: Canlyniadau adolygiad o ostyngiadau ac eithriadau'r dreth gyngor (23 Mai 2025) | LLYW.CYMRU

[20] Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar Wella Fframwaith Apeliadau'r Dreth Gyngor – Crynodeb o'r Ymatebion (26 Mehefin 2025) | LLYW.CYMRU

[21] Datganiad Ysgrifenedig: Arferion Tecach ar gyfer Gorfodi'r Dreth Gyngor (30 Ebrill 2025) | LLYW.CYMRU

Cymru. Eleni, lleihaodd y cynllun y dreth gyngor ar gyfer 256,500 o aelwydydd, na fydd 216,000 ohonynt yn talu unrhyw dreth gyngor, sy'n ffordd bwysig o fynd i'r afael â thlodi. Rydym yn profi dulliau arbrofol o leihau dyledion sy'n gysylltiedig â'r dreth gyngor, drwy Gynllun Achub rhag Dyledion[22] sydd ar gael ar hyn o bryd ar sail cynllun peilot ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chasnewydd. Mae'r cynllun hwn yn profi ffyrdd newydd o weithio gydag Undebau Credyd a chaiff ei werthuso yn 2026.

### Ardrethi annomestig

47. Mae ardrethi annomestig yn cyfrannu mwy nag £1.1bn er mwyn ariannu gwasanaethau hanfodol llywodraeth leol a'r heddlu yng Nghymru. Mae'n briodol bod ein system ardrethi a rhyddhadau yn adlewyrchu gwahaniaethau ac amgylchiadau unigryw Cymru.

48. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol digynsail i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy'r system ardrethi annomestig, yn enwedig ers dechrau pandemig y Coronafeirws. Rydym yn parhau i ddarparu lefelau sylweddol o gymorth gan gynnwys £78m ychwanegol mewn rhyddhad ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn darparu chweched flwyddyn olynol o ryddhad wedi'i dargedu ar gyfer y sector manwerthu, y sector hamdden a'r sector lletygarwch, yn ychwanegol at ein rhyddhadau ardrethi parhaol sy'n werth £250m bob blwyddyn.

49. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar greu system ardrethi sy'n amlwg yn well i Gymru, nid dim ond yn wahanol i'r un bresennol. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, sy'n ddarn nodedig o ddeddfwriaeth, yn adlewyrchu rhaglen waith arwyddocaol ar drethi lleol sy'n rhychwantu sawl blwyddyn, gan gyflawni ein cynlluniau i sicrhau bod gennym systemau effeithiol, hyblyg ac ymatebol ar waith er mwyn i aelwydydd a busnesau gyfrannu at ariannu gwasanaethau lleol.

50. Rydym yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni elfennau olaf ein rhaglen o ddiwygiadau i ardrethi annomestig a nodwyd ar gyfer tymor y Senedd hon[23], erbyn mis Ebrill 2026. Dechrau mynd ati i weithredu'r dull newydd o gynnal ymarferion ailbrisio bob tair blynedd yng Nghymru sydd wrth wraidd cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio ardrethi annomestig. Cynhaliwyd ymarfer ailbrisio 2023 yn llwyddiannus ac mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer yr ymarfer ailbrisio nesaf, a gynhelir ar 1 Ebrill 2026.

51. Mae ymarfer ailbrisio yn cynnwys adolygu gwerthoedd ardrethol pob eiddo annomestig, a wneir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ar adeg benodol. Rhoddir gwerth ardrethol newydd i bob eiddo annomestig, yn seiliedig ar ei werth rhentu blynyddol amcangyfrifedig ar 1 Ebrill 2024 (sef y dyddiad prisio rhagflaenol).

---

[22] Cynllun Peilot Achub rhag Dyledion Treth Gyngor | LLYW.CYMRU
[23] Datganiad Llafar: Diwygio Ardrethi Annomestig (29 Mawrth 2022) | LLYW.CYMRU

Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn llunio ac yn cyhoeddi'r rhestr ardrethu newydd ar ffurf ddrafft erbyn diwedd 2025.

52. Un o nodweddion allweddol y system ardrethi annomestig yw'r lluosydd. Ar hyn o bryd, un lluosydd sy'n gymwys i bob eiddo yn y sylfaen drethu sydd gan Gymru. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 yn darparu pwerau i gyflwyno lluosyddion gwahaniaethol ac, yn ddiweddar, gwnaethom gysylltu[24] ar gynigion ar gyfer lluosydd is ar gyfer siopau manwerthu bach i ganolig ac, o bosibl, luosydd uwch ar gyfer eiddo gwerth uchel. Caiff penderfyniadau ynghylch pennu lluosyddion ar gyfer 2026-27 eu gwneud yn ystod y cyfnod cyn cyhoeddi cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru.

53. Mae cynnydd pellach hefyd wedi'i wneud o ran cyflawni ein hymrwymiad i leihau cyfleoedd i osgoi talu yn y system ardrethi annomestig. Yn ddiweddar gwnaethom ymgynghori[25] ar gynigion i roi'r fframwaith gwrthweithio osgoi cyffredinol a sefydlwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ar waith (drwy ddiffinio amrywiaeth o drefniadau osgoi artiffisial y caiff ei ddefnyddio i'w gwrthweithio), a chreu dyletswydd i dalwyr ardrethi roi gwybod i awdurdodau bilio am newidiadau penodol mewn amgylchiadau. Daw'r newidiadau deddfwriaethol terfynol hyn o'r amrywiaeth eang o fesurau i fynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig a gyhoeddwyd yn 2018, i rym ar 1 Ebrill 2026.

54. Yn y tymor hwy, rydym yn parhau i ystyried diwygiadau mwy sylfaenol i'r system drethu leol, gan gynnwys yr achos dros Dreth Gwerth Tir yng Nghymru. Gan adeiladu ar y canfyddiadau yn asesiad technegol manwl Prifysgol Bangor[26] yn ystod tymor diwethaf y Senedd, mae ymchwil arbrofol wedi'i chomisiynu, er mwyn profi prisiad tir gan ddefnyddio methodolegau gwahanol ar raddfa fach.

55. Bwriedir cyhoeddi'r ymchwil cyn diwedd tymor y Senedd a bydd yn helpu'r gwaith o ystyried sut y gellid rhoi Treth Gwerth Tir yng Nghymru, gan sicrhau gwell dealltwriaeth o un o'r prif rwystrau sy'n gysylltiedig â phennu gwerthoedd tir.

# Datblygu ardoll ymwelwyr

**Diben**

56. Galluogi awdurdodau lleol i godi refeniw er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy, yn unol â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[27].

---

[24] Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghori ar gynigion ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol ardrethi annomestig (20 Mai 2025) | LLYW.CYMRU
[25] Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar fesurau i fynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig (7 Ebrill 2025) | LLYW.CYMRU
[26] Treth gwerth tir lleol: asesiad technegol | LLYW. CYMRU
[27] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad [HTML] | LLYW.CYMRU

## Y cefndir

57. Cyflwynwyd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) etc. (Cymru) i'r Senedd ar 25 Tachwedd 2024, gan gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu '*i gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth.*' Pasiwyd y Bil gan y Senedd yng Nghyfnod 4 ar 8 Gorffennaf, a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Medi a dod yn Ddeddf.

58. Bellach, gall awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr gan ddilyn proses ymgynghori a gwneud penderfyniadau. Lle y defnyddir ardoll, mae'r Ddeddf yn pennu dwy gyfradd, sef £0.75 y pen y noson ar gyfer arosiadau dros nos mewn llety a rennir megis hosteli a safleoedd gwersylla a £1.30 y pen y noson ar gyfer pob arhosiad arall mewn llety i ymwelwyr. Mae rhai eithriadau ac amgylchiadau cyfyngedig lle y bydd ad-daliad yn gymwys. Os caiff ei defnyddio ledled Cymru, gallai'r ardoll ymwelwyr gynhyrchu hyd at £33m y flwyddyn i awdurdodau lleol.

59. Defnyddir ardollau mewn llawer o wledydd er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gyda'r arian yn cael ei ailfuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau lleol sy'n hanfodol i brofiad twristiaid. Lle maent yn cael eu defnyddio, maent yn darparu ffrwd refeniw bwysig er mwyn i ardaloedd lleol allu diogelu asedau naturiol, lleihau effeithiau ymwelwyr a gwella neu hyrwyddo arlwy twristiaeth.

60. Cafodd y gwaith hwn ei ddatblygu'n flaenorol mewn cydweithrediad â Phlaid Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio a ddaeth i ben yn 2024.

## Tystiolaeth a dadansoddiad

61. Gwnaed sawl darn allweddol o waith ymchwil a helpodd i lywio'r cynigion deddfwriaethol terfynol:

- Cynhaliodd Alma Economics adolygiad o elastigion sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru[28]
- Ymchwiliodd Prifysgol Bangor i gyfundrefnau trethiant cymharol ar gyfer ardaloedd tebyg sy'n codi ardollau ymwelwyr[29]
- Hefyd, cynhaliodd Ymchwil Bangor asesiad ansoddol o fanteision aneconomaidd ardollau ymwelwyr gan ddefnyddio cyrchfannau cymharu a ystyriodd arferion gorau ar gyfer llunio a gweithredu[30]

---

[28] Adolygiad tystiolaeth o elastigion sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru (crynodeb) [HTML] | LLYW.CYMRU

[29] Dadansoddiad cymharol o'r systemau trethiant sydd yn effeithio ar yr economi ymwelwyr mewn gwledydd dethol | LLYW.CYMRU

[30] Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang | LLYW.CYMRU

- Ymchwil defnyddwyr a ystyriodd farn ymwelwyr am ardoll ymwelwyr arfaethedig[31]

62. Cyflwynwyd y memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol ochr yn ochr â'r cynigion deddfwriaethol ar 25 Tachwedd 2024. Mae'n amlinellu'n fanwl y costau a'r manteision disgwyliedig sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys yr asesiad o'r effaith economaidd a luniwyd gan yr Athro Calvin Jones o Brifysgol Caerdydd gan ddefnyddio tablau mewnbwn-allbwn.

63. Cyhoeddwyd yr asesiadau effaith hyn ar gyfer yr ardoll ymwelwyr ar wefan Llywodraeth Cymru.[32]

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

64. Mae ACC wedi dechrau gweithgarwch gweithredu ar gyfer y gwasanaethau Cofrestru Cenedlaethol ac Ardoll Ymwelwyr ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda'r sector twristiaeth, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

65. Gall cynghorau lleol ddewis a ydynt am gyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn eu hardal ai peidio. Byddant yn gwneud y penderfyniad ar ôl ymgynghori â thrigolion a busnesau. Rhaid iddynt roi o leiaf 12 mis o rybudd cyn y gellir cyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardal ar ôl ymgynghori a gwneud penderfyniad ffurfiol. Rydym yn amcangyfrif na fydd modd rhoi ardoll ymwelwyr ar waith mewn ardal awdurdod lleol cyn mis Ebrill 2027.

66. Bydd y cynllun cofrestru cenedlaethol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru yn dechrau ym mis Hydref 2026 a bydd ACC yn cynnal ymgyrch gyfathrebu er mwyn sicrhau bod darparwyr yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud ac erbyn pryd.

67. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y ddeddfwriaeth bum mlynedd ar ôl yr adeg y daw'r Ddeddf i rym yn llawn.

68. Mae rhagor o wybodaeth am yr ardoll ymwelwyr a'r polisïau cofrestru cenedlaethol ar gael yn Yr Ardoll Ymwelwyr: sut y gallwn ni i gyd elwa | LLYW. CYMRU.

[31] Ymchwil ardoll ymwelwyr: barn defnyddwyr a thrigolion | LLYW.CYMRU
[32] Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: asesiadau effaith | LLYW.CYMRU

## Datblygu'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog

**Diben**

69. Parhau â'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog a cheisio cytundeb â Llywodraeth y DU ar yr un pryd ynghylch system addas ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd.

**Y cefndir**

70. Gall trethiant datganoledig fod yn ysgogiad pwerus o ran dylanwadu ar newid ymddygiad, yn ogystal â chynhyrchu refeniw i gefnogi gwariant cyhoeddus i ddiwallu anghenion Cymru a'i gwneud yn bosibl i drethi mwy cynyddraddol gael eu datblygu. Mae hefyd yn ein galluogi i ddatblygu dull mwy strategol o ymdrin â threthiant canolog a lleol yng Nghymru, gan sicrhau y gall ddiwallu anghenion a blaenoriaethau dinasyddion, busnesau a chymunedau yn well.

71. Rydym yn parhau i adolygu ein trethi presennol ac mewn rhan arall o'r Adroddiad hwn rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu ein trethi er mwyn bodloni ein gofynion o ran codi refeniw a'n gofynion polisi ehangach. Mae ein hegwyddorion treth yn parhau i fod yn sail i unrhyw newidiadau gan sicrhau bod y trethi datganoledig yn parhau i gyd-fynd â'n hegwyddorion o fod yn glir ac yn sefydlog.

72. Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio pwerau trethu newydd ar gyfer treth ddatganoledig newydd bosibl 'ar dir sy'n addas ar gyfer datblygu', – sef treth ar dir gwag'. Diben treth ar dir gwag fyddai helpu i ddatblygu tir y mae caniatadau eisoes wedi'u rhoi ar ei gyfer neu dir sydd o fewn cynllun datblygu lleol neu strategol ond nad yw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Byddai'r dreth newydd yn canolbwyntio ar gymell newid ymddygiad yn hytrach na chodi refeniw.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

73. Newidiodd Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2024 ac yn sgil hynny bu'n bosibl inni ailddechrau ymgysylltu â Llywodraeth y DU er mwyn trafod cynigion Llywodraeth Cymru i'r Senedd sicrhau cymhwysedd dros dreth ar dir sy'n addas i'w ddatblygu yn y dyfodol agos.

74. Ochr yn ochr â'r trafodaethau hyn rydym wedi parhau i ymchwilio i drethi tebyg sydd ar waith ar hyn o bryd mewn gwledydd eraill er mwyn llywio'r gwaith o

ddatblygu ein cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys y 'Residential Zoned Land Tax' a gyflwynwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon yn gynharach eleni.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

75. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'n hymrwymiad i sicrhau cymhwysedd y Senedd dros dreth ar dir sy'n addas i'w ddatblygu.

76. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â cheisio rhagor o bwerau trethu datganoledig er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru yn unol â'n  hegwyddorion treth.

## Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol

**Diben**

77. Ystyried cyfleoedd ar gyfer trethi amgylcheddol mewn meysydd datganoledig a meysydd a gedwir yn ôl er mwyn helpu i greu Cymru gryfach, wyrddach a thecach.

**Y cefndir**

78. Mae ein polisi trethi yn cyflwyno ysgogwr pwysig i gefnogi amcanion ehangach y llywodraeth. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, ac fel ffordd o gefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

79. Rydym yn cydweithio â llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i ddatblygu a chyflwyno sawl menter arall er mwyn ein helpu i bontio i economi gylchol a gwneud cynnydd cyflymach tuag at sicrhau Cymru ddiwastraff, carbon sero net. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu, Cynllun Masnachu Allyriadau Carbon a thracio gwastraff digidol gorfodol.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

80. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn deall effaith mentrau amgylcheddol sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Bydd y dystiolaeth hon yn ein helpu i nodi pa gyfleoedd eraill a allai fod i ddatblygu trethi eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli, meysydd a gedwir yn ôl, a meysydd trethiant newydd.

## Datblygu polisi treth trafodiadau tir

### Diben

81. Sicrhau bod polisi treth trafodiadau tir yn parhau i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru a chyd-fynd â'i hegwyddorion treth ac, ar yr un pryd, godi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus.

### Y cefndir

82. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir, a godir wrth brynu neu brydlesu tir ac adeiladau, yn dreth a gynlluniwyd yn bennaf i godi refeniw er mwyn helpu i dalu am wariant Llywodraeth Cymru. Gall hefyd gefnogi nodau polisi eraill Llywodraeth Cymru drwy, er enghraifft, ryddhadau, neu addasiadau i'r cyfraddau a godir.

83. Caiff cyfraddau preswyl uwch o'r Dreth Trafodiadau Tir eu codi ar eiddo preswyl ychwanegol a brynir gan unigolion sydd eisoes yn berchen ar eiddo preswyl, er enghraifft ail gartrefi, eiddo prynu i osod, ac unrhyw annedd a brynir gan gwmni, er enghraifft, nid unigolyn.

84. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn ffynhonnell refeniw sylweddol i Lywodraeth Cymru. Cynhyrchodd y Dreth Trafodiadau Tir refeniw gwerth £341 miliwn yn 2024-25 a rhagamcenir y bydd yn codi £401 miliwn yn 2026-27.

85. Roedd Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol gwerth £650,000 yn ACC er mwyn cynyddu gweithgarwch cydymffurfedd â threth, gyda'r nod o gynhyrchu swm ychwanegol rhagamcanol o £2.6m mewn refeniw o drethi drwy fynd i'r afael ag osgoi ac efadu trethi.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

86. Yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch er mwyn sicrhau bod y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau i weithredu'n briodol ac yn effeithiol.

87. Yn 2022, gwnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y bwriadau polisi wedi'u cyflawni a bod y newidiadau a wnaed drwy gyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir fel yr olynydd i Dreth Dir y Dreth Stamp yn dal i fod yn briodol.

88. Mae datblygiadau nodedig eraill yn ystod tymor y Senedd hon wedi cynnwys y canlynol:

    a. Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gynyddu'r trothwy cychwynnol ar gyfer talu prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir i £225,000. Mae hyn yn parhau i sicrhau nad oes unrhyw Dreth Trafodiadau Tir yn cael ei thalu ar y mwyafrif o'r tai a brynir yng Nghymru.

b. Ym mis Rhagfyr 2024, gwnaethom gynyddu cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir, sy'n gymwys i eiddo ychwanegol a brynir, 1%.

c. Ym mis Gorffennaf 2024, gwnaethom newid y rheolau ynglŷn â'r cyfnodau eithrio ac ad-dalu o dair blynedd ar gyfer cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir. Mae'r rheolau newydd yn rhoi amser diderfyn i drethdalwyr hawlio ad-daliad o elfennau cyfraddau preswyl uwch eu bil Treth Trafodiadau Tir neu eithriad rhag yr elfennau hynny, pan rwystrir eu trafodiadau gan ddiffygion diogelwch tân (e.e. problemau sy'n gysylltiedig â chladin) a/neu eu hatal gan gyfyngiadau brys[33].

d. Ym mis Tachwedd 2024, gwnaethom greu rhyddhad y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer trafodiadau tir ac eiddo o fewn safleoedd treth arbennig a leolir mewn Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi yng Nghymru. Yn wreiddiol, roedd rhyddhad y Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys i safleoedd treth arbennig yn y Porthladd Rhydd Celtaidd. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2025, cafodd y rhyddhad ei ymestyn i gynnwys safleoedd treth arbennig ym Mhorthladd Rhydd Ynys Môn.

e. Ym mis Chwefror 2025, gwnaethom newid y rheolau ynglŷn â'r rhyngweithio rhwng rhyddhad anheddau lluosog a'r eithriad ar gyfer is-annedd. Bellach, mewn trafodiadau anheddau lluosog penodol sy'n ddarostyngedig i brif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir, nid yw'n bosibl hawlio rhyddhad anheddau lluosog a'r eithriad ar gyfer is-annedd[34].

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

89. Byddwn yn parhau i adolygu'r Dreth Trafodiadau Tir, gan gynnwys y cyfraddau a'r bandiau cysylltiedig, er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru ac yn cynhyrchu refeniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

90. Ar adeg Cyllideb Ddrafft 2025, gwnaethom gyhoeddi ein bwriad i wneud newidiadau pellach i gyfundrefn rhyddhad anheddau lluosog, er mwyn (1) cyflwyno rheol gyfartalu newydd i sicrhau cysondeb fesul annedd rhwng trafodiadau anheddau lluosog a thrafodiadau un annedd sy'n ddarostyngedig i'r cyfraddau preswyl uwch, a (ii) cynyddu cyfradd isaf rheolau treth rhyddhad anheddau lluosog o 1% i 3%.

91. Byddwn yn cyflwyno rheol newydd ynglŷn ag ad-daliadau ar gyfer cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir. Bydd ad-daliad newydd cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys pan fydd trethdalwr yn prynu annedd ac yna'n ei lesio i awdurdod lleol yng Nghymru, drwy Gynllun Lesio Cymru. Cynllun gan Lywodraeth Cymru yw Cynllun Lesio Cymru sy'n cyfrannu at

---

[33] Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2024

[34] Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2025

ddarparu cartrefi fforddiadwy. Byddai prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys i'r trafodiad.

92. Ym mis Mai 2025, argymhellodd y Tasglu Tai Fforddiadwy[35] y dylai Llywodraeth Cymru roi rhyddhad ar Dreth Trafodiadau Tir i ALlau yng Nghymru pan fyddant yn caffael eiddo at ddibenion tai cymdeithasol, yn debyg i'r rhyddhad presennol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mewn ymateb i'r argymhelliad, rydym yn asesu effeithiolrwydd y rhyddhad presennol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac yn ystyried a yw'n briodol ei hatgynhyrchu ar gyfer ALlau yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd[36] er mwyn asesu'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer ymestyn rhyddhad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar Dreth Trafodiadau Tir i gynnwys ALlau yng Nghymru, ynghyd â newidiadau posibl eraill.

## Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi

**Diben**

93. Sicrhau bod treth gwarediadau tirlenwi yn parhau i weithredu fel y'i bwriadwyd ac ystyried cyfleoedd i gefnogi amcanion ehangach y llywodraeth.

**Y cefndir**

94. Cyflwynodd Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 gyfradd dreth safonol ac is sy'n berthnasol i warediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Mae'r gyfradd is yn gymwys i ddeunyddiau sy'n bodloni'r amodau a nodir yn y Ddeddf honno ac mae'r gyfradd safonol yn gymwys i'r holl ddeunyddiau eraill. Hefyd, cyflwynodd y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi drydedd cyfradd dreth ar gyfer gwastraff a waredir mewn lleoedd ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, a elwir yn gyfradd gwarediadau anawdurdodedig.

95. Mae ACC wedi bod yn casglu ac yn rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn llwyddiannus ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi[37], cynyddwyd y gyfradd is ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi fel ei bod yn cyfateb i 5% o'r gyfradd safonol. Dyma'r tro cyntaf i gyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wyro oddi wrth y rhai sy'n gymwys yn Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan y Dreth Dirlenwi.

96. Rydym yn parhau i fonitro effaith y newidiadau hyn i gyfraddau'r dreth i weld a oes unrhyw effeithiau ar faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

[35] Tasglu Tai Fforddiadwy: adroddiad ac argymhellion | LLYW. CYMRU
[36] Newidiadau arfaethedig i ryddhadau o'r dreth trafodiadau tir | LLYW.CYMRU
[37] Ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | LLYW.CYMRU

97. Er bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, treth ymddygiadol ydyw yn bennaf. Ei phrif amcan yw lleihau faint o ddeunyddiau sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a, thrwy hynny, helpu i newid i economi fwy cylchol lle y caiff adnoddau eu defnyddio'n gyson ac y caiff gwastraff ei osgoi. Wrth i ymddygiad newid, disgwylir i refeniw leihau, wrth i lai o wastraff gael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

98. Ar 28 Ebrill 2025, cyhoeddodd Trysorlys EF ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r Dreth Dirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd y cynigion hyn yn cynnwys newid i un gyfradd o'r Dreth Dirlenwi erbyn 2030 a dileu'r Gyfundrefn Dirwyon Cymhwyso i fis Ebrill 2027.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

99. Caiff y dull o bennu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei lywio gan egwyddorion treth Llywodraeth Cymru a'r amcan i leihau'r gwastraff a waredir ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach wedi bod yn ffactor allweddol hefyd wrth bennu'r cyfraddau hyd yn hyn. Y dull gweithredu a fabwysiadwyd gennym oedd mai dim ond er mwyn adlewyrchu amgylchiadau Cymru y dylai cyfraddau treth wyro oddi wrth gyfraddau'r trethi rhagflaenol.

100. Comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn 2022 a chyhoeddwyd yr Adroddiad yn 2023[38]. Nod yr Adolygiad oedd asesu a oedd y dreth yn gweithredu fel y bwriadwyd gan y Ddeddf. Mae canfyddiadau'r adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ein helpu i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ymddygiadau hyd yma. Canfu'r adolygiad fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gyson iawn â pholisïau a blaenoriaethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a nododd ei rôl fel rhan o becyn o fesurau polisi sydd, gyda'i gilydd, yn dargyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi ac i fyny'r hierarchaeth gwastraff.

101. Fodd bynnag, tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at y ffaith, yn achos sawl ffrwd wastraff, nad yw cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn atal gwastraff rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. At hynny, nododd yr adolygiad fod tystiolaeth bod y bwlch rhwng cyfraddau is a chyfraddau safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfrannu at gamddosbarthu gwastraff.

102. Er bod y cynnydd yn y gyfradd is ar gyfer y flwyddyn hon yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol, ac er iddo leihau ychydig, mae'r bwlch rhwng y gyfradd is a'r gyfradd safonol, a mater camddosbarthu gwastraff, a gwaredu gwastraff heb awdurdod, yn parhau i fod yn faes gweithgarwch allweddol.

103. Mae cyfradd gwarediadau anawdurdodedig y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'i phennu ar 150% o gyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi er

[38] Adolygiad annibynnol: Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

mwyn atal gwarediadau anawdurdodedig sy'n fwy tebygol o gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a'n cymunedau. Bwriedir i gyfradd gwarediadau anawdurdodedig y Dreth Gwarediadau Tirlenwi annog gweithredwyr anghyfreithlon i reoli eu gwastraff yn fwy cynaliadwy ac, o leiaf, fynd ag ef i safle tirlenwi awdurdodedig a thalu cyfran deg o dreth.

104. Mae ACC wedi parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Datblygodd y ddau sefydliad strategaeth ar y cyd ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n canolbwyntio ar gymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r risg sy'n gysylltiedig â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi o ran camddosbarthu gwastraff a gwarediadau anawdurdodedig.

105. Mae achosion sy'n ymwneud â gwarediadau anawdurdodedig a atgyfeiriwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru at ACC er mwyn iddo ymchwilio iddynt wedi galluogi ACC i brofi ei bwerau treth yn effeithiol, gan godi a chasglu treth am y tro cyntaf. Ar gyfer y cyfnod o dair blynedd (2022-23 i 2024-25), dengys ffigurau a gyhoeddwyd gan ACC ei fod wedi casglu £0.3 miliwn o achosion a gwblhawyd.

106. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydnabod rôl y Dreth Gwarediadau Tirlenwi fel rhan o'r gyfres o fesurau i fynd i'r afael â throseddau sy'n ymwneud â gwastraff yng Nghymru Mae Gweinidogion yn parhau i ymgysylltu â'r camau a gymerir ar y cyd gan ACC a Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent wedi dangos awydd i ystyried sut y gellir manteisio i'r eithaf ar y trefniadau cydweithio rhwng y ddau sefydliad, a phartneriaid ehangach, er mwyn mynd i'r afael â throseddau sy'n ymwneud â gwastraff yng Nghymru.

### Y canlyniadau a'r camau nesaf

107. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn nodi ein bwriad i gynyddu'r gyfradd safonol yn unol â RPI a ragwelir. Disgwylir i hyn gyd-fynd â chynnydd Llywodraeth y DU yng nghyfradd safonol y Dreth Dirlenwi ac, felly, mae'n cyfyngu ar y cymhelliant dros dwristiaeth wastraff.

108. Bwriedir pennu'r gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig fel eu bod yn cyfateb i 5% a 150% o'r gyfradd safonol yn y drefn honno.

109. Cyhoeddir y cyfraddau penodol ar ôl i swm y mynegai prisiau manwerthu (RPI) a ragwelir gael ei gyhoeddi yng Nghyllideb Hydref Llywodraeth y DU sydd wedi'i hamserlennu ar gyfer 26 Tachwedd.

110. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hymateb i unrhyw newidiadau i'r Dreth Dirlenwi, gan roi sylw i ganlyniad ymgynghoriad diweddar Trysorlys EF, a chaiff ei llywio gan ei hegwyddorion threth a'r nod o leihau nifer y gwarediadau tirlenwi yng Nghymru.

111. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £0.3m ychwanegol i Awdurdod Cyllid Cymru yn 2026-27 i ariannu mwy o weithgarwch ymchwilio mewn ymateb i warediadau anawdurdodedig. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu refeniw trethi tua £0.7m bob blwyddyn a bwriedir iddo hefyd atal gwarediadau anawdurdodedig posibl yn y dyfodol.

## Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig

### Diben

112. Sicrhau bod yr effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar y sylfaen drethu Gymreig yn cael eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru.

### Y cefndir

113. Mae'r sylfaen drethu yn hanfodol i sicrhau cadernid economaidd a chynaliadwyedd cyllidol Cymru. Y sylfaen drethu yw'r sail ar gyfer cynhyrchu refeniw cyhoeddus ac mae'n cefnogi twf economaidd ac yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae atgyfnerthu ac ehangu'r sylfaen drethu yn cynyddu ymreolaeth gyllidol Cymru, gan ein grymuso i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu proffil demograffig y wlad a'i blaenoriaethau economaidd a chymdeithasol penodol.

114. Nododd y Rhaglen Lywodraethu ymrwymiad i ystyried ffyrdd newydd o gynyddu ein sylfaen drethu ac ystyried goblygiadau unrhyw argymhellion gan y Comisiwn Cyfansoddiadol o ran cyllid.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

115. Mae'r sylfaen drethu Gymreig yn parhau i ddatblygu mewn ymateb i dueddiadau demograffig, economaidd ac ymddygiadol.

116. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn amcangyfrif, yng nghanol 2024, fod tua 3,187,000 o bobl yn byw yng Nghymru, sef cynnydd o 0.6% ers canol 2023 neu tua 19,300 yn fwy o bobl. Dros yr un cyfnod, cynyddodd poblogaeth Lloegr 1.2%. Roedd y cynnydd yn y boblogaeth yng Nghymru rhwng canol 2023 a chanol 2024 i'w briodoli'n bennaf i fudo rhyngwladol net positif i Gymru (tua 22,700 o bobl) a mudo mewnol net i Gymru o wledydd eraill y DU (tua 4,800 o bobl). Dros yr un cyfnod, parhaodd y duedd hirdymor o fwy o farwolaethau na genedigaethau yng Nghymru, gyda thua 35,600 o farwolaethau yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at ganol 2024.[39] Parhawyd i gofnodi mwy o farwolaethau na

[39] Mae dadansoddiad ac esboniad manylach o newidiadau demograffig yng Nghymru i’w gweld yma: Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

genedigaethau yng Nghymru gan fod tua 35,600 o farwolaethau a 27,500 o enedigaethau yn y flwyddyn hyd at ganol 2024.

117. Prif amcanestyniadau poblogaeth y SYG yw y bydd poblogaeth Cymru yn parhau i heneiddio dros y degawd nesaf. Rhagamcenir y bydd yr oedran cymedrig(canolrifol) yn cynyddu o 43.2(42.9) yn 2025 i 44.9(44.6) yn 2035.

118. Un o'r prif ffactorau sy'n sail i gryfder sylfaen drethu Cymru yw'r farchnad lafur yng Nghymru. Fel y trafodir yn fanylach yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft[40],mae pryderon parhaus ynghylch cywirdeb a dibynadwyedd yr Arolwg o'r Llafurlu. Felly, mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid ystyried y tueddiadau a ddangosir gan ffynonellau eraill o ddata marchnadoedd llafur, yn arbennig:
   a. yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth,
   b. Cyfrif Talu Wrth Ennill (TWE) CThEF o nifer gwirioneddol y cyflogeion ar gyflogresi TWE,
   c. Data gweinyddol ar nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra (Lwfans Ceisio Gwaith neu'r rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol, am resymau sy'n ymwneud â diweithdra).

119. Gyda'i gilydd, mae ystadegau'r farchnad lafur yn cyfeirio'n fras at y ffaith bod y farchnad lafur yn tawelu. Dengys data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a CThEF gyfraddau cyflogaeth cymharol sefydlog a bod nifer y cyflogeion wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod yr Arolwg o'r Llafurlu yn dangos newidiadau anwadal yn y gyfradd cyflogaeth. Er i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ddangos gostyngiad yn y gyfradd diweithdra yn ystod 2024 a bod nifer yr hawlwyr wedi bod yn cynyddu, ni pharhaodd y duedd hon rhwng diwedd 2024 a dechrau 2025. Ar gyfer yr un cyfnod, mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn dangos cynnydd sylweddol yn y gyfradd diweithdra yn ystod 2024 ac, yna, gyfradd ostyngol yn 2025.

120. Dengys gwaith dadansoddi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod cynhyrchiant is ac enillion is cysylltiedig yn ffactorau allweddol sy'n cyfrif am y swm is o dreth incwm a delir y pen yng Nghymru o gymharu â'r DU. Dadansoddir tueddiadau mewn anweithgarwch economaidd, cynhyrchiant ac enillion yn fanylach yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru y cyfeirir ato ym mharagraff 118.

## Y canlyniadau a'r camau nesaf

121. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno'r achos dros system fudo fwy hyblyg sy'n cydnabod amodau demograffig ac economaidd yng Nghymru. Yn fwy diweddar mae newidiadau i reolau ymfudo wedi'u rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU a fydd yn cael effeithiau sylweddol ar ddemograffeg ac economi Cymru a

[40] https://www.llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2026-2027

gallu'r wlad i recriwtio'n rhyngwladol. Mae'r newidiadau mwyaf eithafol yn cynnwys cau'r Fisa Gofal Cymdeithasol i geiswyr newydd, cynyddu trothwyon cyflog a chynyddu lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig ar gyfer swyddi sy'n gymwys i gael y Fisa Gweithiwr Crefftus. Gwnaed y newidiadau hyn heb ymgynghori nac ymgysylltu ymlaen llaw â'r llywodraethau datganoledig ond mae'n anochel y byddant yn effeithio ar feysydd cyfrifoldeb datganoledig. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wella gweithgarwch ymgysylltu â llywodraethau datganoledig, yn bennaf drwy'r adolygiadau presennol sy'n cael eu cynnal gan y Grŵp Cynghori ar Fudo.

122. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig eraill i ehangu'r sylfaen drethu gan ddefnyddio ysgogiadau cyllidol newydd sy'n cyd-fynd â nodau hinsawdd megis cyflwyno Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau'r DU o fis Ionawr 2027. Mae Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n helpu i gau'r bwlch sgiliau a chefnogi swyddi gwell, gyda'n Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Mae hyn yn cynnwys helpu pobl i aros mewn gwaith a'r rhai sydd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur i ddod o hyd i waith.

123. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Fforwm Cynhyrchiant Cymru, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, ar roi gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ar waith a llunio ymyriadau busnes a pholisi ymarferol er mwyn gwella cynhyrchiant yng Nghymru. [41]

124. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Dadansoddi Cyllid Cymru, sef corff ymchwil yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd, sy'n gwneud ymchwil annibynnol i faterion sy'n ymwneud â chyllid cyhoeddus yng Nghymru.

125. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu datganiad o'i Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil, a fydd yn cael ei gyhoeddi i arwain ac annog ymchwil sy'n helpu i lunio polisïau ar sail tystiolaeth mewn meysydd economaidd a chyllidol. Mae'n debygol mai un o brif themâu allweddol y Meysydd o Ddiddordeb Cyllidol fydd datganoli cyllidol a chyllid cyhoeddus, gan amlinellu lle y ceisir rhagor o ymchwil ar drethi datganoledig. Ceir rhagor o wybodaeth am y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn fersiwn eleni o Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru, y cyfeirir ato ym mharagraff 118.

126. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn rhoi amrywiaeth o fesurau sydd wedi'u hanelu at leihau anweithgarwch economaidd ledled Cymru ar waith.

[41] Wales Productivity Forum - The Productivity Institute

127. Ariannodd Llywodraeth Cymru raglen Cymunedau am Waith a Mwy sy'n gweithio mewn partneriaeth â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, er mwyn darparu gwasanaeth mentora cymunedol, hyfforddiant a chymorth ariannol i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth. Ers ei lansio ym mis Ebrill 2018, mae'r rhaglen wedi cefnogi mwy na 72,000 o bobl, y mae 32,000 ohonynt wedi cael gwaith am fwy nag 16 awr yr wythnos.

128. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Twf Swyddi Cymru + sy'n darparu pecyn cymorth unigoledig er mwyn helpu pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial a chymryd eu camau cyntaf i fyd gwaith ac, felly, osgoi'r posibilrwydd o fod yn economaidd anweithgar. Mae mwy na 15,685 o bobl ifanc wedi manteisio ar y rhaglen ers ei lansio yn 2022.

129. Mae Gwasanaeth Di-waith a Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn uniongyrchol. Mae'r Gwasanaeth Di-waith yn helpu pobl i ddod o hyd i waith os ydynt yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn yr hirdymor, os nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu os ydynt yn gwella ar ôl cael problemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau.

130. Mae'r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith yn darparu cymorth i'r rhai sy'n absennol o'r gwaith; neu y mae risg y byddant yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch corfforol neu feddyliol. Mae wedi'i anelu at y rhai a gyflogir gan fusnesau bach a chanolig yn y sector preifat a'r trydydd sector. Mae cymorth hefyd ar gael er mwyn i fusnesau fabwysiadu newidiadau cadarnhaol mewn arferion, polisïau a chanllawiau Iechyd a Llesiant.

131. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd sydd â'r nod o ymgorffori ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddatganoli cyllid cymorth cyflogaeth nad yw'n gysylltiedig â Chanolfan Byd Gwaith i Lywodraeth Cymru. Y nod yw datblygu darpariaeth gwaith, iechyd a chyflogaeth integredig ledled Cymru.

## Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

### Diben

132. Sefydlu saernïaeth hirdymor i Weinidogion Cymru a'r Senedd wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, gyda'r hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau allanol, gan sicrhau bod y system dreth yn parhau i fod yn effeithiol ac yn gyfredol.

## Y cefndir

133. Yn 2022 pasiodd y Senedd Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu). Cafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r adnoddau cywir i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau allanol penodol a allai effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru.

134. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio pwerau i wneud rheoliadau i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl, megis dyfarniadau llys, elfennau amwys neu newidiadau mewn trethi a gedwir yn ôl cyfatebol sydd ar waith yn Lloegr, a allai gael effaith sylweddol ar rwymedigaethau unigolion ac ar ein refeniw.

135. Gwnaed sawl gwelliant yn ystod Cyfnodau'r Bil. Yn bwysicaf oll, cyflwynwyd cymal machlud. Mae'n gymwys bum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol). Felly, ni fydd yn bosibl gwneud rheoliadau newydd gan ddefnyddio'r pŵer a roddir o dan y Ddeddf ar ôl 7 Medi 2027. Caiff Gweinidogion Cymru osod rheoliadau gerbron y Senedd a fydd yn ymestyn y cyfnod y gellir gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pŵer yn y Ddeddf, hyd at 30 Ebrill 2031 (sef diwedd tymor y Seithfed Senedd).

136. At hynny, diwygiwyd y Ddeddf er mwyn cynnwys rhwymedigaeth i Weinidogion Cymru adolygu'r ffordd y rhoddir y Ddeddf ar waith a'i heffaith a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwnnw. Mae'n rhaid cyhoeddi casgliadau'r adolygiad erbyn 7 Medi 2026. Rhaid i'r adolygiad hwnnw hefyd gynnwys asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer newid Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynllunio'r gwaith i gefnogi Gweinidogion Cymru gyda'u hadolygiad a bydd gweithgarwch ymgysylltu ynghylch y mecanweithiau amgen yn dechrau yn ystod hanner cyntaf 2025.

137. Nid yw'r pŵer a roddir o dan y Ddeddf wedi cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru eto.

## Tystiolaeth a Dadansoddiad

138. Lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd ar 8 Medi[42] a oedd yn edrych ar opsiynau ar gyfer diwygio Deddfau Trethi Cymru yn y dyfodol a rhoddodd Ddatganiad Llafar yn y Siambr ar 16 Medi[43].

[42] Gwneud Newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru | LLYW.CYMRU
[43] Datganiad Llafar: Papur gwyrdd yn ceisio barn ar newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (16 Medi 2025) | LLYW.CYMRU

### Y Camau Nesaf

139. Mae'r Papur Gwyrdd hefyd yn ceisio barn ar y cynnig i ymestyn y cymal machlud yn y Ddeddf gan ddefnyddio rheoliadau, a fyddai'n caniatáu estyniad untro tan fis Ebrill 2031. Byddai hyn yn rhoi amser i'r llywodraeth newydd allu asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfynu ar gam gweithredu priodol. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 28 Tachwedd.

## Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol

### Diben

140. Sefydlu dull Cymreig o reoli trethi Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â gweinyddiaethau ledled y DU.

### Y cefndir

141. Yng Nghymru, mae pum treth ar waith lle mae rhywfaint o gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli mewn perthynas â nhw, a gesglir gan wahanol awdurdodau treth:

- Y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cael eu casglu a'u rheoli gan ACC.
- Treth incwm sydd wedi'i ddatganoli'n rhannol, sef CTIC, sy'n cael ei chasglu gan CThEF ar ran Llywodraeth Cymru.
- Y ddwy dreth leol, sef y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, sy'n cael eu casglu gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

142. Er bod y gwahanol awdurdodau casglu trethi wedi datblygu mewn ffyrdd gwahanol, wedi'u cefnogi a'u llywio gan amrywiaeth o strwythurau, prosesau a gofynion gwahanol rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddull strategol, cydlynol phenodol o weinyddu trethi yng Nghymru.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

143. Mae ein partneriaeth bolisi ag ACC yn allweddol i ddatblygu a gwahaniaethu'r dull Cymreig. Mae ein dull gweithredu yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth datblygu polisi trethi sy'n cyd-fynd â'r ffordd rydym yn casglu ac yn rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Mae hon yn elfen allweddol o'r broses o ddatblygu'r Ffordd Gymreig o Drethu, gan sicrhau bod yr ystyriaethau o ran polisi a gweithredu trethi yng Nghymru wedi'u hymgorffori mewn prosesau cynllunio a datblygu o'r cychwyn cyntaf.

144. Mae'r gwaith partneriaeth ag ACC wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y flwyddyn hon i ddatblygu'r broses o lunio a chyflwyno systemau'r Ardoll Ymwelwyr a Chofrestru Ymwelwyr. Gan fod y Ddeddf Ardoll Ymwelwyr bellach

wedi'i phasio gan y Senedd, mae pwyslais y gwaith wedi symud i weithredu. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag ACC i ddeddfu'r ddeddfwriaeth a datblygu'r systemau gofynnol i fod yn barod ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy'n awyddus i roi ardoll ymwelwyr ar waith o fis Ebrill 2027.

145. Mae ACC wedi gweithredu'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn yn llwyddiannus ers dros saith mlynedd ac wedi casglu mwy na £2 biliwn. Mae'r profiad hwnnw wedi'i ategu gan ddiwylliant o ddysgu a gwella parhaus. Mae rhai gwelliannau gweithredol yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, ac rydym wedi gweithio gydag ACC ar ddatblygu cynigion ar gyfer Bil a allai gael ei gyflwyno'n gynnar yn nhymor y Senedd nesaf, os cytunir arno.

**Y canlyniadau a'r camau nesaf**

146. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd i atgyfnerthu'r saernïaeth sy'n sail i'n trefniadau partneriaeth ag ACC.

147. Gan fod gwaith ar yr Ardoll Ymwelwyr yn canolbwyntio mwy ar bartneriaeth gyflawni ag ALlau, mae'n bwysig sicrhau bod y broses o gyflwyno'r gwasanaeth newydd hwn a'r trefniadau sy'n sail iddo yn mynd rhagddi mor ddidrafferth ac effeithiol â phosibl. Byddwn yn gweithio gydag ACC i gwblhau dogfen ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig ar gyfer Bil Cynnal Trethi posibl a allai gael ei gyflwyno'n gynnar yn ystod tymor y Senedd nesaf.

## Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach

**Diben**

148. Codi ymwybyddiaeth o drethi datganoledig yng Nghymru.

**Y cefndir**

149. Mae ymgysylltu a chydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol i lunio a datblygu'r trethi presennol a threthi newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni ein hegwyddorion treth a'n buddiannau polisi ehangach, gan gydnabod y nodweddion a'r ystyriaethau penodol sy'n gysylltiedig â phob treth benodol.

**Tystiolaeth a Dadansoddiad**

150. Ar 19 Mehefin, gwnaethom gynnal ein cynhadledd dreth flynyddol yng Nghaerdydd. Dyma ein prif ddull o ymgysylltu â'r amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn polisi trethi yng Nghymru. Denodd y digwyddiad fwy na 100 o bobl â diddordeb mewn polisi trethi a pholisi cyllidol, a gafodd amrywiaeth eang o gyflwyniadau gan siaradwyr o Gymru, y DU a gwledydd tramor.

151. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, y Sefydliad Siartredig Trethiant a chymdeithasau masnach perthnasol.

152. Gwnaethom barhau â'n ffocws penodol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid â diddordeb yn ystod hynt Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) (Cymru) 2025. Cynullwyd gweithgor gyda rhanddeiliaid o'r sector twristiaeth, cyrff masnach, awdurdodau lleol ac arbenigwyr ym maes trethiant, i gyfrannu at syniadaeth bolisi. Mae ACC bellach yn cadeirio'r gweithgor wrth iddo ymgymryd â'i gyfrifoldebau statudol newydd, gan sicrhau bod y sector yn parhau i chwarae rhan a chael ei gynnwys yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau.

153. Cyfraddau Treth Incwm Cymru yw'r fwyaf o'n trethi datganoledig ac mae'r dreth yn effeithio ar bob talwr treth incwm yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda CThEF, sy'n gweinyddu CTIC ar ein rhan. Mae ymwybyddiaeth o CTIC yng Nghymru yn parhau i fod yn gymharol isel. Dengys canlyniadau Arolwg Omnibws Cymru 2025 fod 37% o bobl yng Nghymru yn ymwybodol y gallwn bennu cyfraddau ar gyfer elfen o dreth incwm a godir yng Nghymru.

154. Ochr yn ochr â gweithgareddau ymgysylltu mewn perthynas â'n trethi datganoledig, rydym hefyd wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU ynghylch buddiannau Cymru mewn perthynas â threthi annatganoledig. Mae'r trethi hyn yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau holl ddinasyddion y DU ac, felly, maent yn bwysig i Gymru yn ogystal â gweddill y DU.

155. Mae gan Drysorlys Cymru gydberthynas waith adeiladol a rhagweithiol â CThEF a Thrysorlys Ei Fawrhydi, ac mae'n ymgysylltu â nhw yn rheolaidd er mwyn trafod amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â threthi a gedwir yn ôl. Ein nod yw deall cynlluniau trethiant Llywodraeth y DU a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried.

156. Rydym wedi bod yn cydweithio er mwyn sicrhau:

- y caiff buddiannau trethdalwyr Cymreig eu hystyried mewn deddfwriaeth i'r DU gyfan.
- Nad yw trethdalwyr Cymreig yn cael eu rhoi o dan anfantais yn anfwriadol gan unrhyw ddeddfwriaeth i'r DU sy'n ymwneud â threthi a gedwir yn ôl.
- Bod mentrau Llywodraeth Cymru yn cael yr un driniaeth dreth â mentrau cyfatebol yng ngweddill y DU.

157. Mae ein polisi i ymgysylltu'n gynnar mewn ffordd agored a rhagweithiol yn rhoi canlyniadau gweladwy, megis y newid diweddar yn neddfwriaeth y DU ynglŷn â Threth Etifeddiaeth er mwyn sicrhau na fydd ffermwyr yng Nghymru o dan anfantais pan fydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn dechrau.

158. Mae gan Drysorlys Cymru ddwy sianel X, sef @TrysorlysCymru ac @WelshTreasury, ac mae'n cyhoeddi cynnwys ar safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion cyllidol, Cyllideb Cymru, Trethi Cymru, cydweithio â'r llywodraethau datganoledig eraill a datganiadau polisi a gwariant Llywodraeth Cymru. Mae nifer y dilynwyr wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf a bellach mae gan @TrysorlysCymru tua 8,040 o ddilynwyr ac mae gan @WelshTreasury tua 1,750 o ddilynwyr.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

159. Byddwn yn:

- Parhau i ddefnyddio digwyddiadau cyllidol allweddol, megis cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y caiff arian ei godi a'i wario yng Nghymru.
- Defnyddio'r adborth o'n cynhadledd dreth fwyaf diweddar er mwyn ystyried y gwaith cynllunio ar gyfer ein digwyddiad nesaf.
- Llunio canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i weithredu Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) (Cymru) 2025. Bwriedir ymgynghori ar y canllawiau drafft yn ystod yr hydref.
- Rydym yn bwriadu datblygu prosiect gan weithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o drethi datganoledig a pholisi treth a sicrhau eu bod yn chwarae mwy o ran yn y broses o'u datblygu.